Rhaglen Cymraeg i Oedolion
9 Ebrill 2014

Diolch am eich llythyr at Archwilydd Cyffredinol Cymru dyddiedig 28 Mawrth 2014, a dderbyniwyd gennym ar 3 Ebrill 2014, lle'r ydych yn gofyn am:

y *meini prawf a fyddai, o'u bodloni, yn fan cychwyn ymchwiliad "gwerth am arian" i'r cwestiwn a ellid defnyddio cyllid y Llywodraeth ar gyfer y rhaglen Cymraeg i Oedolion yn fwy effeithiol*

Rwy'n ymateb ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Nid ydym yn cadw gwybodaeth gofnodedig sy'n cyfateb yn uniongyrchol i ddisgrifiad eich cais gan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu ar y sail y bydd yn cychwyn astudiaeth gwerth am arian os yw meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddefnyddio disgresiwn wrth gyflawni ei swyddogaethau, ac er ei fod yn ystyried ffactorau amrywiol wrth benderfynu sut i gyflawni ei swyddogaethau, nid yw'n cyfyngu ar ei ddisgresiwn drwy gadw at feini prawf sefydlog er mwyn cynnal ymchwiliad. Fodd bynnag, mae'r ffactorau y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cynnal astudiaeth gwerth am arian yn cynnwys lefelau'r budd a'r pryder cyhoeddus, graddfa'r materion a'r amgylchiadau a'r peryglon perthnasol, a fyddai'r gwaith yn amserol, a fyddai'r gwersi a ddysgir yn debygol o fod yn drosglwyddadwy, a gwerth posibl y gwaith o safbwynt arbedion ariannol, gwasanaethau gwell a rheoli neu lywodraethu gwell. Yn ogystal, nod yr Archwilydd Cyffredinol yw sicrhau cydbwysedd ar draws amrywiaeth o bortffolios polisi, ac mae'n ystyried sut y gall astudiaethau posibl gynorthwyo themâu strategol penodol yn ei waith.

Mae'n bosibl y bydd y ddogfen sy'n amgaeedig â'r llythyr hwn o ddiddordeb i chi, sef papur briffio a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â rhaglen astudiaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol. Mae tudalen 15 yn nodi bod y rhaglen Cymraeg i Oedolion yn un o'r pynciau y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn eu hystyried fel astudiaeth gwerth am arian bosibl yn y dyfodol, ac mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi y bydd "yn cadw golwg ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad diweddar er mwyn helpu i flaenoriaethu fy ngwaith a fydd yn dechrau yn 2015-16".

Fel y gwyddoch, yn 2013 cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn seiliedig ar adolygiad o'r rhaglen Cymraeg i Oedolion a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r adroddiad hwnnw yn gwneud argymhellion sy'n berthnasol i'r cwestiwn o werth am arian. Felly, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu y byddai unrhyw astudiaeth gwerth am arian bosibl yn fwy effeithiol pe bai'n ystyried datblygiadau a chamau gweithredu sy'n deillio o ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad hwnnw. Mae datganiad Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r adolygiad hwnnw ar gael yma: http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/welshforadultsreview/?skip=1&lang=cy

(Rwyf wedi amgáu copi caled o'r datganiad er hwylustod cyfeirio)

Mae'n rhaid i mi egluro nad oes gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer i gwestiynu manteision amcanion polisi Gweinidogion Cymru; mae statud yn gwahardd hynny'n glir. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am waith craffu o'r fath. At hynny, byddai unrhyw astudiaeth gwerth am arian y gallai'r Archwilydd Cyffredinol ei chynnal i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn ystyried i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei hadnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, ond ni fyddai'n cwestiynu manteision yr amcanion polisi.

Rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Ionawr 2014 at yr Archwilydd Cyffredinol, ond penderfynwyd y byddai modd i ni ymateb yn fwy cynhwysfawr ar ôl i'r papur briffio amgaeedig gael ei gwblhau.

Gobeithio bydd fy ymateb yn ddefnyddiol i chi, ond mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Ian Phillips